IS-DDEDDFWRIAETH

# 2018 Rhif (Cy. 54)

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2018

*Gwnaed 18 Mehefin 2018*

*Yn dod i rym 19 Mehefin 2018*

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 19(1), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 19 Mehefin 2018.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Ymddiriedolaeth GIG Felindre(**2**) ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "y Prif Gyfarwyddydau" ("*the Principal Directions*") yw Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017.

### Diwygio'r Prif Gyfarwyddydau

**2.**—Mae'r Prif Gyfarwyddydau wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff 1 o Atodlen 1, yn lle "£4,500" rhodder "£4,622";

---

(**1**) 2006 p. 42.


(**2**) Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838) (fel y'i diwygiwyd).

(b) ym mharagraff 1 o Atodlen 2, yn lle “£17,500” rhodder “£18,500”;

(c) ym mharagraff 1 o Atodlen 3, yn lle “£17,500” rhodder “£18,500”;

(d) ym mharagraff 1 o Atodlen 4, yn lle “£21,500” rhodder “£22,500”; ac

(e) ym mharagraff 2 o Atodlen 4, yn lle “£34,500” rhodder “£36,500”.



*Yr Athro Chris Jones,*
Y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad 18 Mehefin 2018